WG35. 5.127

# AR LAN BEDD

## Y PARCH. EDWARD MATTHEWS.

---

Iaith dwysder Methodistiaeth,—o waelod
Calon draetha'i halaeth;
Ysig yw, tywysog aeth
I weryd o'r filwriaeth.

Ei dewisol mawr dywysog—ydoedd
EDWARD MATTHEWS enwog.
I droi pechadur euog
I borth Gras Aberth y Grog.

Arweinydd oedd i'r enwad,—i lenyrch
Goleuni dadguddiad,
At nefol a Dwyfol Dad
Ac i adwaen y Ceidwad.

Am oes, mewn Cyrddau Misol,—ei fawr
A'i farn oedd derfynol; [nerth
Areithiai ffwrdd gecraeth ffol
O lawer cwrdd dadleuol.

Amnaid ei drem lem, neu'i law,—a wnai bawb
Fel y bedd yn ddystaw;
Gyrai'i olwg bob drwg draw—mewn dychryn,
A heriai undyn beidio ei wrandaw.

Angel Duw yn fy ngwlad oedd,—a daniwyd
A doniau o'r nefoedd;
Ei hyawdl lais roddai floedd
Ai'n fywyd trwy'r tyrfaoedd.

Ei waith rhyfedd i'r Athrofa—a saif
Tra son am Drefecca;
Treuliodd ei nerth trwy Walia,—er ei budd,
A throes, o wir-fudd mawr i'w thrysorfa,—

Yr hynodol gyfraniadau!—agos
UGAIN MIL O BUNNAU!
Dyna sylwedd dan seiliau—Coleg dysg
I ranu addysg i'w droi'n rhinweddau.

Boed heddwch i'w lwch anwyl ef—yn awr,
"Yn nhy ei hir gartref!"
Ac o fodd gwnawn gyfaddef—
Marw wnaéth Gwr Mawr y Nef!

DAFYDD MORGANWG.

X205311856